4H1453

# MARWNAD

Y Parchedig Mr. D. ROWLANDS,

Yr hwn a ymadawodd â'r Byd *Hydref* 16, 1790, yn 77 Mlwydd o'i Oed, ac a gladdwyd yn LLANGEITHO.

GAN PHILLIP DAFYDD.

Yr Achos a'm cymhellodd i argraphu'r *Farwnad* ganlynol oedd, Fy mod yn ofni i fod amrywiol o'r hen Bobl yn agos ei ollwng yn angof, a bod llawer o rai ieuaingc wedi dyfod i'r Eglwysi, na ddarfu iddynt sylwi fawr arno erioed.

1.

'RWY'n cwyno'n awr mewn caniad,
Cei olrain fy ngalarnad, oernad eiriau,
Am un o weision Iesu,
Wr enwog ga'dd ddihangu, o law angeu:
Mae e', yn awr o fewn i'r ne',
Ymysg cantorion, a'u tannau tynnon,
Hen delynorion, a bleinion yn ddi-ble,
Heb elyn yn eu blino, yn llon o fewn i'r lle.

2

O ROWLANDS fawr ei elw,
Gadd godi waith i gadw, wrth ole'r haulwen,
O'i ludded ac o'i lwyddiant, (esn;
Ai roddi mewn uchelfraint, ni ddaw drach-
Ei wedd, sy'n hardd tu draw i'r bedd,
O safnau'r llewod, yn nyffryn trallod,

Myn'd at ei Briod i mewn i'r hyfryd wledd,
Ai wyneb yn dragywydd fydd nefoedd lawn
o hedd.

3.

Fe ga's ei alw yn wiwlan
Trwy allu, mewn oddi allan i winllan Iesu,
A'i arddel dan ei urddau,
Fel Cawr yn erbyn caerau, gael eu torri:
Yn llawn, o nefol ddwyfol ddawn,
Ai gawell saethau oedd rhwng ei freichiau,
Y rhai'n a hedai nes byddai clwyfau'n llawn,
Fe drawai at y blewyn y boreu a'r prydnawn

4.

Fel *Dafydd* 'r oedd yn dyfod,
A'i gerrig glowion parod, am *Goliah*,
A'r rhai'n o afon bywyd,
Yn berlau disglair hyfryd, ymysg y dyrfa,
Nes b'ai rhyw ddychryn yn parhau,
A gwawr mor oleu, o argyhoeddiadau,
Nes bai'r eneidiau, *ha, frodyr beth wnawn ni!*
Am wasgu mewn rhyw gysgod rhag dyr-
nod Un yn Dri?

5.

'Roedd llwon Duw yn llanw,
Ei enaid, 'nghyd a'i enw, i ddi huno,
Y byd oedd mewn ammodau,
A'r gelyn yn anaele, ac angeu'n ango',
Ond Dan, a lwyddodd yn y mán,
Uwch ben y dyffryn oedd lawn o esgyrn,
Hwy godent gwedi'n yn lluoedd braf i'r lan,
A bywyd yn ei henaid a rhinwedd ymhob
rhan.

6.

Fe godai'r ſarph dan ſyrthio,
A'i choryn wedi ſigo, ni ſ'ai'n ſegur,
A'i llid yn ddigon llydan,
I rwyſtro ROWLANDS allan, ond ni ellir;
'Roedd tân yn lledu'n awr ymla'n,
Er gwyr eglwyſig a'i ffroenau ffyrnig, (mân
Yn chwythu yn chwithig ſygwthion fawr a
Fe ffaelodd y rhai ffela a diſa'r neſol dân.

7.

Fe ga's ei daflu'n gyſan,
O'r llann yn hollol allan am ddwyſol allu,
Gan ddynion drwg eu drogan,
Rhai cnawdol, ddynol anian, di-ddaioni;
Ond DAN, a ddaliodd Duw i'r lan,
I ledu'n helaeth y wir athrawiaeth,
Er adeiladaeth i'r cryſa ac i'r gwan, (màn.
Gan dorri bara'r bywyd yn ddiwyd ymhob

8.

Fe gododd yn ei erbyn,
Rhyw ffrydiau anghyffredin, gyffröadau,
A brodyr gau'n barodol,
Yn yſſu yn anraſol eu hereſiau!
Y ſe, yn îs yn naws y ne';
Ser oedd yn gwibio am enw yno,
Yn ſerth yn ſyrthio i lawr o entrych ne',
Mae'r cewri megis *Cora*, rhai llwmma yn e
lle.

9.

Ni lwyddodd un offeryn,
A gododd yn ei erbyn, ni cha'i ei arbed
'Roedd barn fel darn a dyrnod,

'n nesa wedi ei osod, ca'i pawb i weled,
I lawr, o ben y muriau mawr,
A'u henw'n hynod o'r dyrfa'n darfod,
Heb neb 'n ei nabod o fewn i'r eglwys fawr,
Mae'r ddaear wedi eu llyngcu, yn llechu yn
llwch y llawr.

10.

'Roedd sylfaen ei athrawiaeth,
Ynghyflawn iechawdwriaeth pen *Calfaria*,
A Thri yn Un anfeidrol, (noddfa,
A drefnodd yn rhyfeddol dragywyddol
I ddyn, afluniaidd iawn ei lun,
Yn llwyr golledig yn aflan ddiaflig,
Mewn ffarnol ffyrnig 'roedd o'i ran ei hun,
Ond cymmwys ydyw'r Cymmod mae'r
Duwdod yn y Dyn.

11.

Fe lwyddodd yn ei lafur,
Uwch *Aaron* a'i holl frodyr offeiriadol,
A'i ddoniau oedd yn ddawnus,
I osod allan ewyllys Duw yn hollol,
Mewn gair, ei bregeth oedd Mab *Mair*,
Grâs a gogoniant sy'n ei haeddiant,(gair,
A phob rhyw lwyddiant a grynant wrth y
A'r Ysprydi sancteiddio yn gryno yno gae'r.

12.

e ddywedai fod dedwyddwch,
haeddiant llawn o heddwch, wedi addo,
 gael o Dduw yn gyfan,
b allu neb oddi allan, gwneud a allo,
wy râs, medd DANIEL, dduwiol was,

Yn ffrydiau hyfryd o fywiol fywyd,
Tragywyddol wynfyd o ddwyfol nefol flas,
Yn awr o fawr drugaredd yn Nuw a ddaeth
i ma's.

13.

Yr oedd ei athrawiaethau,
Yn eglur beraroglau yn yr eglwys,
A mêl a llaeth yn llwythau,
Yn barodol i'r eneidiau o Baradwys,
'Roedd gwîn o'r gair f'ai yn ei drin,
Wrth wafgu'r fwppiau, y gwîn a redai.
Yn rhadol ffrydiau, a roddai wrth eu min,
Nes byddai'r lleftri gweigion yn llawnion
bob yr un.

14.

Efe gariodd gennadwri,
Trwy holl ardaloedd *Cymru*, gywyr Gymro,
O gariad, Duw ai dodwys
Yn Fugail ar yr eglwys fawr *Llangeitho*,
Lle'r oedd yn porthi'r praidd ar g'oedd,
A llawn ddifgleidiau yn harddu'r byrddau;
Nes bai'r eneidiau yn bywhau wrth eu bodd,
Yn bwytta bara'r bywyd a rannwyd yno'n
rhodd.

15.

Uwch *Salem* a'i gwych feiliau,
*Llangeithio* lle bai'r llwythau i gyd yn gryno,
A DAN a'i ddoniau dwyfol,
Yng oleu'r haul dragywyddol yn egluro,
Nes b'ai y llefg a'r eiddil rai,
Yn dechreu gwledda ar nefol Fanna,

n bob tu yn bwytta, a digon i bob rhai,
A thyma'r bara bywiol a nefol sy'n cryshau.

16.

Fel llong yn llawn o hwylau,
O'r *India* draw'n dod adre, dros y cenfor,
Yn lluniaidd wedi ei llenwi,
O rasol gariad Iesu yn werthfawr drysor:
Yn rhad, rhyw gyfoeth mawr a ga'd,
Nes yw'r tlodion yn bendefigion, (Gwaed,
O'r freinol Goron, trwy rinwedd mawr y
Ond angeu'n awr a'i tynnodd, fe aeth o'n
tŷ â'n Tad.

17.

Aeth Rowlands hen mor oleu,
Yn ddigon eglur adre at ei Arglwydd,
I gael o ffrwyth ei lafur,
A choron braf o gysur mewn happusrwydd,
I blith, rhyfedi fel y gwlith,
Sy'n rhoddi'n gysson i gyd o'u calon,
Dragywyddol goron ar ben yr Iesu byth,
Yn seinio yn swyn *Hosanna* mae'r lleia' yn
eu plith.

18.

Yn gerbyd y Cerubiaid,
Wr anwyl, aeth ei enaid i mewn yno,
A'i wynfyd mwy heb derfyn,
Offeiriad braf a brenin, byth heb flino,
A thân, o gwniad clir ymlaen,
Gogoniant miloedd i'r gwr a'u carodd, (lân
Yn llwyr a'u prynodd, a'u golcbodd hwy'n
A thyma'r *Halelujah*, *Calfaria* fydd eu cân.

19.

Os Rowlands fawr ei alwad,
Aeth adre at ei Uchel-dad i'r uchelder,
Mae Brawd a aned i ni,
Clod iddo, ymhob caledi bydd bob amſer,
Duw gŵyn, ei dirion anwyl ŵyn,
Ca'nt weinidogion wrth fodd eu calon,
e ſaif yn ffyddlon a thirion nes eu dwyn,
Yn berffaith ar ei ddelw, bu farw er eu mwyn

20.

Fe hauodd yn ei fywyd,
Yn fywiol hadau hyfryd, nid rhyw ofer,
Mae'r gwenith yn egino,
Ceir ffrwyth toreithiog etto, yn ei amſer,
Fe aeth, yn gryno wedi'r gwaith,
I mewn i'r 'ſgybor, rhyw werthfawr dryſor,
Mae etto ragor yn tynnu ar eu taith,
I foli'r Oen fy farw i dragywyddoldeb maith.

## HYMN.

1 MI wela Frenin nef,
O dan y gyfraith gref,
A dor'ſom ni,
Ai chadw hi wnaeth ef;
Dioddefodd ef ar Galfari,
O dan ei holl felldithion hi,
A'n dyled mawr a dalodd,
A nefoedd ddaeth i ni.

2 Mae ol yr hoelion dur,
Yn gwella'm poen a'm cur,

O Feddyg rhad!
Fe ylch ei wa'd fi'n wir;
Mi fentra ymlaen i'r ffynnon hyn,
Agorwyd ar Galfaria fryn,
Hi olchodd ac hi gannodd
Fyrddiwnau maith cyn hyn.

3 Mae ol y wayw-ffon,
Drywanwyd dan ei fron,
Daeth allan waed,
O gariad rhad mae hon;
Dyma'm Noddfa byth a'm Tŵr,
Er maint ystormydd mawr eu stwr,
Mae Seina yn Hosanna,
Yng nghlwyfau'r canol Wr.

4 A thyma'r Person gwiw,
Yn wyn i gid o liw,
Yn berffaith lân;
Fy enaid cân i'm Duw,
A thyma'r wisg a ddaeth i'm rhan,
Cyfiawnder Duw i'm henaid gwan,
Fy harddwch am dedwyddwch
Yw 'nabod hon bob cam.

5 Fe gafodd Iesu Grist
Ei wisgo yma'n drist,
A gwisg o waed,
Yn goch a ga'd, mae Tyst;
Doed holl angylion pûr y nef,
Yn gryno i'w goroni ef,
Gogoniant, moliant miloedd,
A'u lluoedd i'r un llef.

CAERFYRDDIN:
[A]rgraphwyd gan I. EVANS, yn *Heol-y-prior*. 1797.

LN 1453